CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 21ain MEHEFIN 2022

PRESENNOL:
Cyng , Non Dafydd, J E Lewis, D T Roberts, Mrs L Roberts, R R Roberts.

YMDDIHEURIADAU:
Cyng J Evans. Miss B Owen.

Croesawyd aelodau newydd i`r Cyngor gan y Clerc a`r Cynghorwyr Non Dafydd a D T Roberts.
Y Cynghorwyr yn arwyddo ffurflen Dartganiad Derbyn Swydd ar ddechrau y cyfarfod.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Neb

CAEL COFNODION 17eg MAI 2022 YN GYWIR. Cynnig Cyng R R Roberts, eilio Cyng J E Lewis.
Pawb yn hapus.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.
Cyfethol Cynghorwyr Newydd. (Ward Heneglwys) Tair Sedd Wag.
Pump o enwau oedd wedi dod ymlaen hefo diddordeb.
Cyn cyfarfod Mis Mai 17ain cafwyd tri enw pendant Mr Glyn Jones, R G Parry a W R Parry. Yna ar ol ymestyn yr hysbysiad i 31.5.2022 a`i rhoi yn yr Hysbysford yn y pentref. Cafwyd dau enw arall ymlaen. Mrs Llinos Rowlands ac Mr Einion Williams. Yn anffodus r`oedd Mrs Rowlands wedi anfon ei chais yn rhy hwyr (7.6.22) felly nid oedd yn ddilys. Wedi crybwyll y peth gyda Cyng J Evans ac ar ddeall bod trefn, a bod rhaid cyflwyno cyn dyddiad cau. Camddealltwriaeth. Dim yn gwybod pryd oedd y dyddiad cau.
Cafwyd cynnig Cyng R R Roberts i ethol Glyn Jones, R G Parry a W R Parry yn en bloc oherwydd ei bod wedi dangos diddordeb gyntaf, Cyng Mrs L Roberts yn eilio. Nid oedd cynnig arall, na gwrthwynebiad. Yn anffodus nid oedd Mr Einion Williams yn llwyddianus.

Hysbysford. Bodffordd.
Mae yn anodd i`r Cyngor fedru arddangos unrhyw ohebiaeth oherwydd fod yn rhaid rhedeg i chwilio am y goriad at Mr Ellis W Roberts sydd bob amser yn barod i gwestynnu y bwriad. (Eiddo Bodffordd Cyf ydyw)
Yn unfrydol pasiwyd i ofyn i Prifathro yr Ysgol a fuasai yn bosib cael Hysbysford wrth y wal fel fod pawb yn ei weld o`r lon. (Rhaid cael un weddol fawr ac yn gryf) Dim ond yw ddefnyddio gan y Cyngor. Cyng Mrs L Roberts yn cysylltu a`r Prifathro.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. FPL/2022/52. Cais llawn ar gyfer estyniad i`r cwrtil yn:-
   Heulfryn House, Bodffordd. Gwybodaeth Pellach.
   Dim gwrthwynebiad.
   Cynnig Cyng J E Lewis, eilio Cyng R R Roberts.

PENDERFYNIADAU.

2. VAR/2020/22. Cais o dan Adran 73, Ddiwygio Amodau.
   Tyddyn Isaf, Bodffordd.
   Caniatad. Derbyn.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

3. Swyddog Polisi. Rhian W Jones.
   Arweinydd y Cyngor yn Cadarnhau. Aelodaeth y Pwyllgor Gwaith.
   Arweinydd / Cadeirydd. Llinos Medi.
   Cyng Carwyn Jones. Dirprwy Arweinydd / Prosiectau Mawr a Datblygiad Economaidd.
   Cyng Robin Williams. Cyllid, Corfforaethol a Phrofiadau Cwsmer.
   Cynghorydd Ieuan Williams. Addysg ac Iaith Gymraeg.
   Cynghorydd Nicola Roberts. Cynllunio. Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd.
   Cynghorydd Alun Mummery. Tai a Diogelwch Cymunedol.
   Cynghorydd Gary Pritchard. Plant (Gwasanaethau Cymdeithiasol) a Gwasanaethau Ieuenctid.
   Cynghorydd Alun Roberts. Gwasanaethau Oedolion (Gwasanaethau Cymdeithiasol)
   Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas. Priffyrdd, Rheoli Gwastraff ac Eiddo.
   Fel Arweinydd bydd Cyng Llinos Medi yn canolbwyntio ar gynrychioli Ynys Mon ar lefal rhanberthol a chenedlaethol.

   Derbyn. Dim llawer o sylw, ond ddim yn hapus ac ambell Gynghorwr oherwydd profiad o`r gorffennol.

4. Swyddog Polisi. Rhian W Jones.
   Cyngor Sir Ynys Mon - Cyfeiriad e-bost newydd.
   Yr Awdurdod yn symud i ddefnyddio parth hwn ar gyfer ei holl gyfathrebiadau, onf gall gymryd amser. Yn y cyfamser maent yn gofyn i ni sicrhau fod y systemau wedi`u ffurfweddu i dderbyn e-byst gan y pyrth canlynol:-
   @ynysmon.gov.uk
   @anglesey.gov.uk
   @ynysmon.llyw.cymru
   @anglesey.gov.wales
   Os oes unrhyw gwestiynau ynglyn a`r newid, maen`t yn gofyn am gael gwybod gyda rhoi cymaint a phosib o fanylion.
   Derbyn.

5. Adran Priffyrdd.
   Llinellau melyn dwbl yn Llynfaes.
   Cafodd y Clerc alwad ffon gan Swyddog o`r Cyngor yn dilyn materion a oedd wedi codi amser yn ol. Mae hyn wedi cael ei drafod yn flaenorol gan Gynghorydd Sirol ac aelod o`r Gymuned. Y llinellau melyn oddi wrth y Garej (Bryngwyn gynt) cynbellad a Llynfaes Uchaf.
   Nid oes cefnogaeth gan y Cyngor i hyn, mae yn ddigon problemus i barcio yn enwedig pan mae y Neuadd Goffa yn cael ei defnyddio a rhai o`r tai yn gorfod parcio yn y lon. Ydym yn gwybod am ambell un yn rhoi ei cerbyd yn unrhyw le. Meddwl dim am eraill.
   Cawn weld nawr beth fydd y cam nesaf os fydd. Bydd rhaid cael hyn ar ddu a gwyn nid dros ffon.

GOHEBIAETH (ARALL)

6. Virginia Crosbie AS. Croeso i gylchlythyr Mehefin mwy o fanylion ar y wefan neu ffonio 01407 644645. Pan mae y Cyngor yn cael gohebiaeth gan unrhyw blaid mae rhaid ei rhoi ar y Rhaglen. Derbyn.

7. Virginia Crosbie AS. Ynys Ynni yn cael triniaeth person pwysig iawn. wefan neu ffonio 01407 644645. Derbyn ni chafwyd unrhyw sylw.

8. Awel y Mor. Cylchlythyr Fferm Wynt Alltraeth. Derbyn. Dim sylw nodedig.

9. Awel Y Mor. Sarah.
Wedi cael ei dderbyn i'w ystyried gan arolygiaeth gynllunio'r DU. Derbyn. Dim sylw.

10. Elusen William Bold. Rees Roberts. Ysgrifennydd.
Y Elusen yn ddiolchgar pe byddai y Cyngor Cymdeithas Bodffordd yn ethol un person i fod yn gynrychiolydd o 1af Gorffennaf 2022. Cyng N Dafydd yn argymell Cyng Mrs Llinos Roberts ond ni chafwyd eilydd.
Cyng D T Roberts yn cynnig Cyng J E Lewis a Cyng N Dafydd yn eilio.
Derbyniodd Cyng J E Lewis.
Dywedodd Cyng J E Lewis fod angen dau / dwy gynrychiolaeth o'r Cyngor Cymdeithas. Nid oedd hyn yn wybodol o'r blaen.
Y Cyngor yn awr i edrych i fewn i hyn a cysylltu a Mr Rees Roberts.

11. EnBW bp yn lansio'r ymgynghoriad cyntaf ar gyfer fferm wynt ar Mor Mona.
Derbyn y wybodaerh megis dechraf. Cadw mewn golwg.

12. Cae Chwarae Bodffordd. Gaynor Jones.
Ffens y Cae Chwarae.
Holi pwy sydd yn uniongyrchol gyda'r cyfrifoldeb amdano?
Wedi siarad gyda ambell berson, rhai tu allan i'r ardal ac maent yn dweud mae cyfrifoldeb y Cyngor Cymdeithas yw'r Ffens a Torri y Glaswellt. Ond efallai bod hyn yn amrywio o Gyngor i Gyngor. Yn ddiolchgar am gadarnhad.
Rheswm am hyn ydi, ei bod yn meddwl y buasai yn well newid y ffens, mewn amser i ffens fetal wyrdd sydd gyda dim gwaith cynnal a chadw. Methu cael pobol i helpu paentio, ac y sawl sydd wedi helpu mae yn hunod ddiolchgar.
A fuasai y Cyngor yn fodlon i'r ffens gae ei newid mewn amser? Llai o waith yn y pen draw ac yn siwr fuasai yn bosib rhoi cais i fewn gyda ambell grantiau i gael cyfarfod y gost.

Y Clerc yn ateb ar rhan y Cyngor Cymdeithas. yn esbonio y rheolau.
Y Pwyllgor Cae Chwarae sydd yn gyfrifol o'r ffens a torri y glaswellt.
Yr unig beth mae'r Cyngor yn gyfrifol o'honno i'w talu y les i Cyngor Mon.
Wedi helpu mae'r Cyngor hefo trwsio y ffens (Dim ond yn ddiweddar mae'r gost hon wedi dod.)
Nid yw'r Cae Chwarae erioed wedi ei redeg gan Y Cyngor Cymdeithas.
Nid oes problam yn codi i newid y ffens bren i ffens fetal pan mae'r pren yn pydru. Mater i bwyllgor y Cae Chwarae fydd hyn.
Mae rhai Cynghorau hefo pwyllgor Cae Chwarae o fewn y Cyngor ond dim yn Bodffordd.

Darllenwyd yr ymateb a'r Cyngor yn ei dderbyn yn gywir. Unfrydol.
Mae yn amlwg fod rhywun yn corddi y dyfroedd eto. Pwy, nid oes angen athrylith i weld?

RHODDION.
13. Dim.

PLWYFOL.
14. Dyma ychydig broblemau i'w datrys:-
a. Sgwar Bodffordd gwyneb y lon wedi gwisgo hefo'r tramwy trwm a'r linellau gwyn wedi diflannu. (Cyng J E Lewis)

b. Gwrych ger y Lloches Bws wrth Heulfre, Bodffordd angen sylw. (Cyng J E Lewis)

c. Llinell wen ar draws y groeslon o lon Llangwyllog wrth Castell, Tynlon wedi diflannu. (Cyng J E Lewis.) Mae y Clerc wedi codi hyn hefo`r Cyngor Sir beth amser yn ol, wedi cydnabod ond dim byd pellach.

15. Wedi gweld fod gweithgareddau yn cymryd lle yn Castell, Llandrygarn. Y wal lon wedi ei thynnu, y graig wedi ei malu a wal newydd wedi ei adeiladu rhwng yr eiddo a`r cae drws nesaf. Mae`r polyn trydan ar yr eiddo yn edrych yn debyg ei fod yn disgwyl cael ei symud. Nid oes cynllun wedi dod i`r Cyngor. Mae Swyddog Gorfodi y Cyngor Sir yn edrych i fewn.

MATERION ARIANNOL:

16. Cyfrif Rhedegol £12,438.33. (Archeb 1. £3,666,67)
Mynwent Gymunedol £6,890.00.

TALIADAU:

17. Clerc £250.00. CSYM. Costau`r etholiad £405.00. Gweinyddu (3 mis) £144.75. Treth Incwm 1. £187.50. N Williams (Torri Glaswellt Mynwent Gymunedol) £425.00.

D Owen (Clerc)